Gwent Police and Crime Panel

Panel Heddlu Gwent a Throseddu

# CYLCH GORCHWYL

# A

# RHEOLAU GWEITHDREFNOL

**Trosolwg**

1. Cyflwyniad a Threfniadau Gweithredu Cyffredinol

**Cylch Gorchwyl Panel Heddlu a Throseddu Gwent**

2. Cylch Gorchwyl

**Aelodaeth Panel Heddlu a Throseddu Gwent**

3. Aelodaeth: Aelodau Etholedig
4. Aelodaeth: Aelodau Cyfetholedig
5. Aelodaeth: Swyddi Gwag
6. Aelodaeth: Adolygu
7. Diswyddo Aelodau
8. Ymddiswyddo Aelodau
9. Ailbenodi Aelodau
10. Cod Ymddygiad
11. Indemniad
12. Talu Lwfansau, Costau Teithio a Chynhaliaeth

**Trefniadau Cyfarfodydd**

13. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd
14. Cyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu
15. Cworwm
16. Pleidleisio
17. Rhaglen Waith
18. Adroddiadau gan y Panel Heddlu a Throseddu
19. Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Swyddogion
20. Gwahodd eraill i fod yn bresennol
21. Is-bwyllgorau a grwpiau gorchwyl
22. Cyflawni ‘swyddogaethau arbennig’
23. Cynllun Heddlu a Throseddu
24. Adroddiad Blynyddol
25. Uwch Benodiadau
26. Penodi Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dros Dro
27. Praesept Arfaethedig
28. Cwynion
29. Atal dros dro y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
30. Atal dros dro neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl
31. Cyfranogiad y Cyhoedd
32. Hyrwyddo'r Panel
33. Dilysrwydd Trafodion
34. Rheolau Trafod

**TROSOLWG**

**1. Cyflwyniad a Threfniadau Gweithredu Cyffredinol**

1.1 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fydd yr 'Awdurdod Derbyn' yn y broses o sefydlu Panel Heddlu a Throseddu Gwent.

1.2 Bydd y Panel yn cynnwys 12 o Aelodau Etholedig a dau Aelod Cyfetholedig. O hyn ymlaen, cyfeirir at y ddau fath o aelodau fel "Aelodau".

1.3 Bydd yr Awdurdod Derbyn yn darparu'r gwasanaethau cymorth y bydd eu hangen i weithredu Panel Heddlu a Throseddu Gwent a chyflawni ei ddyletswyddau.

1.4 Oherwydd statws cyfreithiol Paneli Heddlu a Throseddu yng Nghymru ('corff cyhoeddus annibynnol'), yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, yr Ysgrifennydd Cartref sy'n gyfrifol amdanyn nhw.

1.5 Oherwydd statws cyfreithiol Paneli Heddlu a Throseddu yng Nghymru, yr Ysgrifennydd Cartref fydd yn gyfrifol am yr holl gostau yr eir iddyn nhw mewn perthynas â 'derbyn' y Panel Heddlu a Throseddu. Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy roi grant blynyddol i'r Awdurdod Derbyn ar gyfer talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â derbyn y Panel.

*1.6* Er nad cydbwyllgor yw'r Panel, bydd rhai darpariaethau deddfiadau sy'n gymwys i gydbwyllgorau awdurdodau lleol neu eu Haelodau yn gymwys i'r Panel yn rhinwedd Rheoliadau Paneli Heddlu a Throseddu (Cymhwyso Deddfiadau Awdurdodau Lleol) 2012.

1.7 Bydd yr awdurdodau a'r Panel, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn sicrhau bob amser fod aelodaeth y Panel yn bodloni gofynion 'amcan penodi cytbwys' y ddeddfwriaeth a bod yr Aelodau a benodir, gyda'i gilydd, yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Panel gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

1.8 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â Chylch Gorchwyl a Rheolau Gweithdrefnol Panel Heddlu a Throseddu Gwent at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

**CYLCH GORCHWYL PANEL HEDDLU A THROSEDDU GWENT**

**2. Cylch Gorchwyl**

2.1 Helpu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

2.2 Adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu drafft (neu amrywiadau ohono) a gaiff ei lunio gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a chyflwyno adroddiad neu argymhelliad/argymhellion arno.

2.3 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a chyflwyno adroddiad neu argymhelliad/argymhellion i'r Comisiynydd.

2.4 Cynnal gwrandawiad cadarnhau er mwyn adolygu uwch benodiadau arfaethedig y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ariannol a chyflwyno adroddiad sy'n cynnwys argymhelliad/argymhellion i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

2.5 Adolygu (er mwyn cadarnhau neu nacáu) a chyflwyno adroddiad ar y penodiad arfaethedig i'r Prif Gwnstabl.

2.6 Adolygu (a nacáu os bydd angen) a chyflwyno adroddiad ac argymhelliad/argymhellion ar y praesept arfaethedig.

*2.7* Adolygu penderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, neu gamau eraill a gymerwyd ganddo, mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. (Fel y diffinnir gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Diwygiadau dilynol).

2.8 Cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. (Fel y diffinnir gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Diwygiadau dilynol).

2.9 Ystyried cwynion difrifol a materion sy’n ymwneud ag ymddygiad mewn perthynas â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu neu Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. (Fel y diffinnir gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Diwygiadau dilynol).

2.10 Atal Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent os bydd yn ymddangos i'r Panel fod y Comisiynydd wedi cael ei gyhuddo yn y Deyrnas Unedig neu Ynys Manaw o gyflawni trosedd a all arwain at uchafswm dedfryd o fwy na dwy flynedd o garchar.

2.11 Penodi Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dros Dro, os bydd angen.

2.12 Adolygu cynigion i alw am ymddeoliad neu ymddiswyddiad y Prif Gwnstabl a gwneud argymhelliad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent.

## AELODAETH PANEL HEDDLU A THROSEDDU GWENT

### 3. Aelodaeth: Aelodau Etholedig

3.1 Ystyrir bod aelodaeth Aelodau Etholedig o'r Panel yn 'benodiad cyhoeddus gwirfoddol'.

3.2 Bydd yr Awdurdod Derbyn yn gwneud trefniadau priodol, fel y nodir yn y ddogfen hon, ar gyfer sefydlu aelodaeth Panel Heddlu a Throseddu Gwent.

3.3 Bydd y Panel yn cynnwys **12** o Aelodau Etholedig a dau Aelod Cyfetholedig. Bydd Aelodau Etholedig y Panel Heddlu a Throseddu yn cynnwys y niferoedd canlynol o Aelodau o bob ardal awdurdod lleol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | x | 2 | Aelod |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | x | **3** | Aelod |
| Cyngor Sir Fynwy | x | 2 | Aelod |
| Cyngor Dinas Casnewydd | x | **3** | Aelod |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | x | 2 | Aelod |

3.4 Bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag y bo'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffeg gymunedol Gwent. Bydd pob un o'r awdurdodau'n penodi Aelodau Etholedig i'r Panel yn unol â'u gweithdrefnau eu hunain a chyda'r bwriad o sicrhau y caiff yr amcan penodi cytbwys ei gyflawni cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

3.5 Bydd yr Awdurdod Arweiniol yn cymryd camau i gydgysylltu'r awdurdodau gyda'r bwriad o sicrhau y caiff yr amcan penodi cytbwys ei gyflawni. Mae'r amcan penodi cytbwys yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Panel sydd o awdurdodau lleol (gan gynnwys Aelodau a benodwyd gan yr awdurdodau ac Aelodau Cyfetholedig sy'n Aelodau Etholedig o unrhyw rai o'r awdurdodau) wneud y canlynol:

a) cynrychioli pob rhan o ardal yr heddlu;
b) cynrychioli cyfansoddiad gwleidyddol yr awdurdodau;
c) gyda'i gilydd, meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Panel gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

3.6 Mater i bob awdurdod lleol sy'n enwebu fydd penderfynu ar gyfnod swydd yr Aelodau enwebedig, ond bydd yn rhaid cynllunio iddo bara o leiaf un flwyddyn gyngor.

3.7 Os na ellir cytuno ar aelodaeth y Panel, yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn enwebu aelodau o awdurdodau lleol i'r Panel.

3.8 Yr Awdurdod Derbyn fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol pwy yw'r Aelodau Etholedig a enwebwyd ar gyfer y Panel.

3.9 Bydd pob Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu yn gallu pleidleisio mewn trafodion.

## 4. Aelodaeth: Aelodau Cyfetholedig

4.1 Bydd Panel Heddlu a Throseddu Gwent yn cyfethol dau Aelod (Aelodau Cyfetholedig) i'r Panel. Y cyfnod swydd fydd tan 31 Hydref ym mlwyddyn yr etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu nesaf.

4.2 Bydd y broses recriwtio a dethol ar gyfer cyfethol Aelodau yn cynnwys cyfnod rhesymol ar gyfer hysbysebu'r swyddi. Er mwyn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y mae'r Panel yn ei chynrychioli, cyn belled ag y bo'n ymarferol, caiff hysbysebion eu cyhoeddi yn y cyfryngau a thrwy ffynonellau eraill y mae gan drigolion yn ardal Heddlu Gwent fynediad cyfartal atyn nhw.

4.3 Bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau o leiaf bythefnos ar ôl dyddiad yr hysbyseb gyntaf.

4.4 Caiff pecynnau cais eu paratoi a'u darparu i'r rhai sy'n gofyn am ffurflen gais.

4.5 Bydd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yr Awdurdod Derbyn yn ystyried y ceisiadau er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gymwys. Bydd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac Aelod arall o'r Panel yn ystyried y ceisiadau yn erbyn meini prawf manyleb person y cytunwyd arni ac yn llunio rhestr fer yn unol â hynny.

4.6 Os na ddaw ceisiadau i law neu os na fydd y ceisiadau a geir yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd sylfaenol, caiff y swyddi gwag eu hailhysbysebu yn unol â'r adran hon.

4.7 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Panel ac Aelod arall o'r Panel yn cyfweld yr ymgeiswyr ar y rhestr fer.

4.8 Yn dilyn y cyfweliadau, bydd y panel cyfweld yn gwneud argymhellion i'r Panel. Wrth wneud yr argymhellion hynny, bydd y panel cyfweld yn ystyried cydbwysedd y Panel yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r sgiliau sy'n ofynnol i gyfoethogi'r Panel.

4.9 Yr Awdurdod Derbyn fydd yn gyfrifol am hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am y penderfyniad i gyfethol Aelodau.

4.10 Bydd y Panel yn sicrhau y caiff o leiaf ddau Aelod Cyfetholedig eu penodi i'r Panel bob tro.

4.11 Ni all person fod yn Aelod Cyfetholedig o'r Panel os bydd yn unrhyw un o'r canlynol:

- Unrhyw un o dan 18 oed.
- Aelod o staff Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent.
- Swyddog Heddlu mewn swydd.
- Aelod o staff sifilaidd Heddlu Gwent.
- Aelod Seneddol.
- Aelod o Senedd Cymru neu Senedd yr Alban.
- Aelod o awdurdod lleol yn ardal Heddlu Gwent.
- Gweision sifil sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol.

4.12 Gellir diswyddo Aelod Cyfetholedig yn dilyn pleidlais drwy fwyafrif o aelodau'r

Panel sy'n bresennol, ar yr amod bod yr Aelod wedi cael o leiaf bedair wythnos o rybudd o gynnig i'w ddiswyddo ac wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynnig. Mae'r enghreifftiau o resymau dros ddiswyddo Aelod yn cynnwys y canlynol (ond nid ydyn nhw'n gyfyngedig iddyn nhw):-

- bod yn absennol o dri chyfarfod yn olynol
- cael ei ddyfarnu'n euog o gyflawni trosedd

**5. Aelodaeth: Swyddi Gwag.**

5.1 Bydd swydd wag ar Banel Heddlu a Throseddu yn codi pan fydd Aelod Etholedig neu Aelod Cyfetholedig yn ymddiswyddo o'r Panel.

5.2 Bydd pob awdurdod lleol yn enwebu Aelodau Etholedig ar gyfer swyddi gwag yn unol â'i drefniadau ei hun. Os bydd awdurdod lleol yn gwneud enwebiad, a'r enwebai'n ei dderbyn, bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi'r cynghorydd enwebedig i fod yn Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu. Caiff swyddi gwag ar gyfer Aelodau Cyfetholedig eu llenwi yn unol â'r broses ddethol a amlinellir yn adran 3.

**6. Aelodaeth: Adolygu**

6.1 Gall Panel Heddlu a Throseddu Gwent adolygu priodoldeb ei aelodaeth unrhyw bryd yn unol â darpariaethau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Rheoliadau Paneli Heddlu a Throseddu (Cymhwyso Deddfiadau Awdurdodau Lleol) 2012.

**7. Diswyddo Aelodau**

7.1 Gall unrhyw Aelod penodedig gael ei ddiswyddo neu ei ddisodli gan ei awdurdod enwebu unrhyw bryd.

7.2 Gall unrhyw Aelod gael ei ddiswyddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw bryd.

**8. Ymddiswyddo Aelodau**

8.1 Gall unrhyw Aelod ymddiswyddo unrhyw bryd, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Gadeirydd y Panel a'i awdurdod enwebu.

8.2 Os bydd y Cadeirydd yn ymddiswyddo, caiff Cadeirydd newydd ei benodi yn y cyfarfod nesaf drwy ddewis o blith yr Aelodau Etholedig sydd ar y Panel. Bydd yr un ddarpariaeth yn berthnasol i swydd yr Is-gadeirydd.

**9. Ailbenodi Aelodau**

9.1 Bydd pob Aelod sydd o awdurdod lleol yn gymwys i gael ei ailbenodi pan ddaw ei gyfnod i ben. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cyfnodau swydd y gellir eu cyflawni.

9.2 Cyfnod swydd Aelodau Cyfetholedig fydd tan 31 Hydref ym mlwyddyn yr etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu nesaf. Rhaid i'r swyddi gael eu hailhysbysebu; fodd bynnag, ni fydd hyn yn atal Aelodau Cyfetholedig rhag gwneud cais am y swydd eto na chael eu hailbenodi.

**10. Cod Ymddygiad**

10.1 Bydd yn rhaid i holl Aelodau'r Panel, gan gynnwys Aelodau Cyfetholedig (cynghorwyr), ddilyn y Cod Ymddygiad sydd mewn grym ar gyfer eu priod awdurdodau. Bydd yn rhaid i Aelodau Cyfetholedig ddilyn Cod Ymddygiad yr Awdurdod Derbyn ac unrhyw brotocolau cysylltiedig y bydd y Panel wedi cytuno arnyn nhw.

**11. Indemniad**

11.1 Rhwymedigaethau'r Ysgrifennydd Gwladol (ac felly nid rhwymedigaethau unrhyw Aelod o'r Panel) yw'r holl rwymedigaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Panel.

11.2 Caiff unrhyw gost y bydd Aelod o Banel Heddlu a Throseddu:

(a) mewn perthynas â rhwymedigaeth berthnasol, neu
(b) fel arall wrth gyflawni un o swyddogaethau'r Panel, neu wrth gyflawni un ohonyn nhw i bob golwg, ei thalu a'i had-dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

11.3 Ystyr “rhwymedigaeth berthnasol” yw rhwymedigaeth a fyddai, oni bai am y paragraff hwn, yn rhwymedigaeth i Aelod o'r Panel (naill ai yn bersonol neu fel Aelod o'r Panel hwnnw) mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan:

(a) y person hwnnw wrth gyflawni un o swyddogaethau Aelod o'r Panel, neu wrth gyflawni un ohonyn nhw i bob golwg,
(b) unrhyw Aelod arall o'r Panel wrth gyflawni un o swyddogaethau Aelod o'r Panel, neu wrth gyflawni un ohonyn nhw i bob golwg, neu
(c) y Panel wrth gyflawni un o swyddogaethau'r Panel, neu wrth gyflawni un ohonyn nhw i bob golwg.

**12. Talu Lwfansau, Costau Teithio a Chynhaliaeth**

12.1 Caiff ffi ddyddiol ei thalu i Aelodau'r Panel am fod yn bresennol i gyflawni Dyletswyddau Cymeradwy. Caiff y ffi ddyddiol ei chapio ar uchafswm o chwe diwrnod y flwyddyn fesul Aelod o'r Panel. Os bydd angen cynnal cyfarfodydd ychwanegol er mwyn bodloni gofynion statudol megis gwrandawiadau cadarnhau neu gwynion, bydd yn rhaid i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod Derbyn gymeradwyo hyn. Caiff taliadau eu gwneud am amser mewn cyfarfodydd neu bresenoldeb mewn hyfforddiant/cynadleddau yn unig a byddan nhw’n cynnwys amser paratoi a theithio.

12.2 Mae'r ffioedd dyddiol, fel yr oedden nhw ym mis Medi 2021, wedi'u hamlinellu isod:

- Cadeirydd Panel Heddlu a Throseddu Gwent – £268.00 y dydd.
- Aelod o Banel Heddlu a Throseddu Gwent – £210.00 y dydd.

12.2 Rhaid nodi pob hawliad am y ffi ddyddiol ar y ffurflen hawlio briodol a'i dychwelyd i'r Awdurdod Derbyn.

12.3 Diffinnir ‘dyletswyddau cymeradwy’ fel:

(a) bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Panel neu unrhyw un o is-bwyllgorau'r Panel.
(b) cyflawni dyletswydd at ddiben cyflawni swyddogaethau'r Panel neu mewn perthynas â hynny.
(c) bod yn bresennol yn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan y Panel.

12.4 Bydd cyfraddau hawliadau teithio yn gyson â chyfraddau milltiroedd CthEF. Y cyfraddau cyfredol fel yr oedden nhw ym mis Tachwedd 2018 yw:

Cerbydau modur hyd at 10,000 o filltiroedd – 45c y filltir
Cerbydau modur dros 10,000 o filltiroedd – 25c y filltir
Tâl atodol ar gyfer teithwyr – 5c y filltir fesul teithiwr
Beiciau modur – 24c y filltir
Beiciau pedlo – 20c y filltir

12.5 Gall Aelodau hawlio am fathau eraill o gostau teithio (bysiau, trenau a thacsis) a bydd yn rhaid cyflwyno derbynebau priodol sy'n dangos y costau gwirioneddol iddyn nhw gydag unrhyw hawliadau. Dylai Aelodau bob amser ofalu eu bod nhw’n dewis y dull teithio mwyaf costeffeithiol.

*12.6* Bydd cynhaliaeth ar gyfer llety dros nos a phrydau bwyd ar gael i Aelodau'r Panel tra byddan nhw’n cyflawni dyletswydd gymeradwy. Bydd y cyfraddau ar gyfer cynhaliaeth yr un fath ag a bennir o bryd i'w gilydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol. Y cyfraddau cyfredol fel yr oedden nhw ym mis Ebrill 2021 yw £28 y dydd, £200 y noson ar gyfer Llundain, a £95 y noson yn unrhyw le arall neu £30 ar gyfer aros gyda ffrindiau a/neu deulu, gan gyflwyno derbynebau.

12.7 Rhaid nodi pob hawliad ar y ffurflen hawlio costau teithio a'i dychwelyd i'r Awdurdod Derbyn. Rhaid cyflwyno derbynebau i ategu hawliadau os bydd hynny'n briodol.

12.10 Caiff treuliau'r Aelodau eu cyhoeddi'n flynyddol a byddan nhw ar gael i'w gweld ar wefan Panel Heddlu a Throseddu Gwent. Caiff manylion hefyd eu rhoi i'r pum awdurdod lleol yng Ngwent at ddibenion tryloywder.

12.11 Caiff newidiadau i gyfraddau teithio a chynhaliaeth eu rhoi ar waith yn unol â phenderfyniad blynyddol CThEF a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**TREFNIADAU CYFARFODYDD**

**13. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

13.1 Caiff Cadeirydd y Panel Heddlu a Throseddu Gwent ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Panel ar ôl i Aelodau'r Panel gael eu penodi ac, ar ôl hynny, yng nghyfarfod cyntaf y Panel yn y flwyddyn gyngor. Caiff y Cadeirydd ei ddewis o blith Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig y Panel.

13.2 Caiff Is-gadeirydd y Panel Heddlu a Throseddu Gwent ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Panel ar ôl i Aelodau'r Panel gael eu penodi ac, ar ôl hynny, yng nghyfarfod cyntaf y Panel yn y flwyddyn gyngor. Caiff yr Is-gadeirydd ei ddewis o blith Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig y Panel.

13.3 Os bydd y Cadeirydd yn ymddiswyddo neu'n cael ei ddiswyddo, caiff Cadeirydd newydd ei benodi drwy ddewis o blith Aelodau'r Panel.

13.4 Gall y Panel ddiswyddo'r Cadeirydd drwy bleidlais a gefnogir gan fwyafrif o aelodaeth gyfan y Panel.

13.5 Gall y Panel ddiswyddo'r Is-gadeirydd drwy bleidlais a gefnogir gan fwyafrif o aelodaeth gyfan y Panel.

13.6 Bydd y Panel yn ethol person o blith Aelodau'r Panel i lywyddu mewn cyfarfod os na fydd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn bresennol.

**14. Cyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu**

14.1 Caiff holl gyfarfodydd y Panel eu cynnal yn gyhoeddus oni fydd gofyniad statudol i gyfarfod yn breifat.

14.2 Bydd y Panel yn cynnal cyfarfod blynyddol rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin bob blwyddyn oni ddarperir fel arall gan reoliad statudol. Yr eitem gyntaf ar yr agenda yn y cyfarfod blynyddol fydd penodi Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

14.3 Bydd Aelodau'r Panel yn cael yr agenda ac unrhyw adroddiadau cysylltiedig o leiaf dri diwrnod clir cyn cyfarfod. Caiff holl agendâu ac adroddiadau'r Panel eu cyhoeddi'n electronig o leiaf dri diwrnod clir cyn cyfarfod. Nid yw diwrnodau clir yn cynnwys y diwrnod y caiff agendâu ac adroddiadau eu hanfon at Aelodau'r Panel na diwrnod y cyfarfod.

14.4 Gall y Cadeirydd, mwyafrif o Aelodau'r Panel neu Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yr Awdurdod Derbyn alw cyfarfod brys.

14.5 Y Cadeirydd fydd yn cytuno ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd y Panel. Bydd gan unrhyw un o Aelodau'r Panel hawl i ofyn am i eitem gael ei rhoi ar agenda ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Panel.

14.6 Gwneir y canlynol yng nghyfarfodydd cyffredin y Panel:

- Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau gan Aelodau.
- Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf.
- Ystyried adroddiadau gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a swyddogion.

14.7 Ni fydd trafodaeth ynglŷn â'r cofnodion, ac eithrio ynglŷn â'u cywirdeb.

**15. Cworwm**

15.1. Ni all un o gyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu fynd rhagddo oni fydd

traean o'r aelodaeth gyfan yn bresennol.

## 16. Pleidleisio

16.1 Bydd y pleidleisio drwy fwyafrif oni fydd rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a Diwygiadau dilynol yn mynnu fel arall.

16.2 Caiff holl Aelodau'r Panel bleidleisio yn nhrafodion y Panel, oni fyddan nhw wedi datgan buddiant mewn perthynas â'r mater y bydd angen pleidleisio yn ei gylch.

16.3 Bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw os bydd pleidlais gyfartal. Un bleidlais fydd gan bob Aelod arall o'r Panel. Caiff pleidleisiau eu bwrw drwy godi dwylo.

16.4 Bydd unrhyw Aelod o'r Panel yn gallu gofyn am i'r ffordd y gwnaethon nhw bleidleisio gael ei chofnodi yn y cofnodion.

## 17. Rhaglen Waith

17.1 Bydd yn rhaid i'r rhaglen waith gynnwys y swyddogaethau a ddisgrifir yng nghylch gorchwyl y Panel.

17.2 Bydd y Panel yn cymeradwyo rhaglen waith flynyddol a fydd yn ystyried dyletswyddau statudol y Panel a blaenoriaethau a nodwyd gan y Panel.

17.3 Cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd y Panel yn ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth ddatblygu ei raglen waith er mwyn sicrhau y gall y Panel gefnogi a herio'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

## 18. Adroddiadau gan y Panel Heddlu a Throseddu

18.1 Bydd y Panel yn cyhoeddi'r holl adroddiadau ac argymhellion a gaiff eu cyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

## 19. Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Swyddogion

19.1 Gall y Panel graffu ar benderfyniadau a wneir neu gamau a gymerir mewn perthynas â rôl y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, neu gynnal adolygiad ohonyn nhw. Yn ogystal â bwrw golwg dros ddogfennau wrth gyflawni ei rôl graffu, gall y Panel ofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ymddangos gerbron y Panel (gan roi rhybudd rhesymol) i ateb unrhyw gwestiynau y bydd yn ymddangos i'r Panel eu bod nhw'n angenrheidiol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau.

19.2 Os bydd y Panel yn gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ymddangos gerbron y Panel, gall y Panel (gan roi rhybudd rhesymol) ofyn i'r Prif Gwnstabl ymddangos gerbron y Panel ar yr un pryd i ateb unrhyw gwestiynau y bydd yn ymddangos i'r Panel eu bod nhw'n angenrheidiol er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau.

19.3 Herio a chefnogi'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw rôl y Panel. Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am graffu ar y Prif Gwnstabl. Yn

unol ag adran 19.2, bydd yn rhaid i'r Panel ystyried yn ofalus cyn gofyn i'r Prif Gwnstabl fod yn bresennol, er mwyn sicrhau y byddai gwneud hynny'n cyd-fynd â rolau a chyfrifoldebau'r Panel.

## 20. Gwahodd eraill i fod yn bresennol

20.1 Gall y Panel wahodd pobl heblaw'r rhai y cyfeirir atyn nhw uchod i'w annerch, i drafod materion sy'n destun pryder a/neu ateb cwestiynau. Er enghraifft, efallai y bydd yn dymuno clywed gan drigolion, rhanddeiliaid, neu gynghorwyr nad ydyn nhw'n Aelodau o'r Panel a swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, a bydd yn gallu gwahodd pobl o'r fath i fod yn bresennol.

## 21. Is-bwyllgorau a grwpiau gorchwyl

21.1 Gall y Panel Heddlu a Throseddu sefydlu grwpiau gorchwyl neu is-bwyllgorau am gyfnod penodol o bryd i'w gilydd er mwyn gwneud gwaith sy'n seiliedig ar dasgau penodol.

21.2 Bydd cwmpas y gwaith y bydd is-bwyllgor neu grŵp gorchwyl yn ei wneud, a diffiniad ohono, yn cael eu pennu ymlaen llaw, ynghyd ag amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith a chyflwyno adroddiad ar ei ganlyniad.

21.3 Ni chaiff un o is-bwyllgorau'r Panel gyfethol aelodau ychwanegol.

21.4 Ni chaiff un o is-bwyllgorau'r Panel na grŵp gorchwyl gyflawni “swyddogaethau arbennig” (gweler 22 isod) y Panel.

## 22. Cyflawni ‘swyddogaethau arbennig’

22.1 Caiff adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â'r swyddogaethau a amlinellir yn y cylch gorchwyl eu cyflwyno yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn adran 18 (adroddiadau gan y Panel).

22.2 Ni chaiff un o bwyllgorau nac is-bwyllgorau'r Panel gyflawni “swyddogaethau arbennig” Panel. Ystyr “swyddogaethau arbennig” yw'r swyddogaethau a roddir i Banel Heddlu a Throseddu Gwent gan:

(a) adran 28(3)* (craffu ar y Cynllun Heddlu a Throseddu);
(b) adran 28(4)* (craffu ar yr Adroddiad Blynyddol);
(c) paragraffau 10 ac 11 o Atodlen 1* (Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, Prif Weithredwr y Comisiynydd a Phrif Swyddog Ariannol y Comisiynydd);
(d) Atodlen 5* (rhoi praeseptau);
(e) Rhan 1 o Atodlen 8* (craffu ar y broses o benodi Prif Gwnstabl).

* cyfeiriadau at Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

## 23. Cynllun Heddlu a Throseddu

23.1 Mae'r Panel yn ymgynghorai statudol yn y broses o ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a bydd yn cael copi o'r Cynllun Heddlu a Throseddu drafft, neu amrywiad drafft ohono, gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

23.2 Rhaid i'r Panel wneud y canlynol:

(a) Cynnal cyfarfod cyhoeddus i adolygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu drafft (neu amrywiad ohono)
(b) Cyflwyno adroddiad neu wneud argymhellion ar y cynllun drafft y bydd yn rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu eu hystyried

**24. Adroddiad Blynyddol**

24.1 Rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu lunio adroddiad blynyddol ar y ffordd y cafodd ei swyddogaethau eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid anfon yr adroddiad i'r Panel er mwyn iddo ei ystyried.

24.2 Rhaid i'r Panel wneud sylwadau ar adroddiad blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac, at y diben hwnnw, rhaid iddo wneud y canlynol:

(a) Trefnu i gyfarfod cyhoeddus o'r Panel gael ei gynnal cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Panel gael yr adroddiad blynyddol
(b) Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad blynyddol ac ateb cwestiynau am yr adroddiad blynyddol fel y bo'n briodol ym marn Aelodau'r Panel
(c) Cyflwyno adroddiad neu wneud argymhelliad ar yr adroddiad blynyddol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

**25. Uwch Benodiadau**

25.1 Mae'n ofynnol i'r Panel gynnal gwrandawiadau cadarnhau cyhoeddus ar gyfer penodiadau arfaethedig a wneir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i swyddi'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Ariannol a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r Panel hefyd gynnal gwrandawiad cadarnhau ar gyfer penodiad y Prif Gwnstabl gyda hawl nacáu.

25.2 Caiff y Panel ei hysbysu am yr angen i gynnal gwrandawiad cadarnhau mewn perthynas ag uwch benodiadau arfaethedig a wneir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

25.3 Mewn perthynas â phenodiad y Prif Gwnstabl, bydd yn ofynnol i'r Panel gynnal gwrandawiad o fewn tair wythnos i'r diwrnod pan gaiff y Panel ei hysbysu gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

25.4 Caiff gwrandawiad cadarnhau ei gynnal yn gyhoeddus, a bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ymddangos ynddo i ateb cwestiynau am y penodiad. Yn dilyn y gwrandawiad, bydd yn ofynnol i'r Panel adolygu'r penodiad arfaethedig a chyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ar y penodiad.

25.5 Yn achos gwrandawiad cadarnhau ar gyfer penodiad arfaethedig Prif Gwnstabl, yn ogystal â'r gofyniad i adolygu'r penodiad a chyflwyno adroddiad arno, bydd hefyd yn ofynnol i'r Panel wneud argymhelliad ar y penodiad a'r pŵer i nacáu'r penodiad.

25.6 Ar ôl ystyried y penodiad, gofynnir i'r Panel wneud un o'r canlynol:

(a) Cefnogi'r penodiad heb amod na sylw
(b) Cefnogi'r penodiad gan wneud argymhellion cysylltiedig, neu
(c) Nacáu penodiad y Prif Gwnstabl (os bydd y mwyafrif gofynnol, sef o leiaf ddau draean o Aelodau'r Panel ar yr adeg pan gaiff y penderfyniad ei wneud, yn pleidleisio o blaid y penderfyniad hwnnw)

25.7 Os bydd y Panel yn nacáu penodiad yr ymgeisydd, bydd yn rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad yn dweud bod y Panel wedi nacáu'r penodiad, gan roi rhesymau.

25.8 Mewn perthynas â phenodiad y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Ariannol a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, bydd yn ofynnol i'r Panel gynnal gwrandawiad o fewn tair wythnos i'r diwrnod pan gaiff y Panel ei hysbysu gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

25.9 Caiff gwrandawiad cadarnhau ei gynnal yn gyhoeddus, a bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ymddangos ynddo i ateb cwestiynau am y penodiad. Yn dilyn y gwrandawiad, bydd yn ofynnol i'r Panel adolygu'r penodiad arfaethedig a chyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd ar y penodiad.

25.10 Yn achos gwrandawiad cadarnhau ar gyfer penodiad arfaethedig Prif Gwnstabl, yn ogystal â'r gofyniad i adolygu'r penodiad a chyflwyno adroddiad arno, bydd hefyd yn ofynnol i'r Panel wneud argymhelliad ynghylch p'un a ddylid penodi'r ymgeisydd ai peidio.

**26. Penodi Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dros Dro**

26.1 Bydd yn rhaid i'r Panel benodi person i weithredu fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu dan un o'r amgylchiadau canlynol:

a) Os na fydd neb yn dal swydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
b) Os na fydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gallu cyflawni'r swydd, neu
c) Os caiff y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei atal dros dro

26.2 Gall y Panel benodi person yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu dros dro, ond dim ond os bydd y person hwnnw'n aelod o staff y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar adeg y penodiad.

26.3 Wrth benodi person yn Gomisiynydd dros dro mewn achos pan na fydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gallu cyflawni ei swydd, bydd yn rhaid i'r Panel ystyried unrhyw sylwadau a wneir i'r Comisiynydd mewn perthynas â'r penodiad.

26.4. Ni fydd penodiad Comisiynydd dros dro yn weithredol mwyach pan fydd y cynharaf o'r canlynol yn digwydd:

a) Rhywun yn cael ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu

b) Y Panel Heddlu a Throseddu neu'r Comisiynydd dros dro yn terfynu penodiad y Comisiynydd dros dro
c) Mewn achos lle y caiff y Comisiynydd dros dro ei benodi am na all y Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyflawni ei swydd, y Comisiynydd yn gallu cyflawni ei swydd eto, neu
d) Mewn achos lle y caiff y Comisiynydd dros dro ei benodi am fod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi'i atal dros dro, y Comisiynydd ddim wedi'i atal mwyach

**27. Praesept Arfaethedig**

27.1 Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn hysbysu'r Panel am y praesept y mae'r Comisiynydd yn bwriadu ei roi ar gyfer y flwyddyn ariannol. Bydd yn rhaid i'r Panel adolygu'r praesept arfaethedig a chyflwyno adroddiad gan gynnwys argymhellion.

27.2 Ar ôl ystyried y praesept, bydd y Panel yn gwneud un o'r canlynol:

a) Cefnogi'r praesept heb amod na sylw
b) Cefnogi'r praesept a gwneud argymhellion, neu
c) Nacáu'r praesept arfaethedig (drwy'r mwyafrif gofynnol, sef o leiaf ddau draean o Aelodau'r Panel ar yr adeg pan gaiff y penderfyniad ei wneud)

27.3 Os bydd y Panel yn nacáu'r praesept arfaethedig, bydd yn rhaid i'r adroddiad i'r Comisiynydd gynnwys datganiad yn dweud bod y Panel wedi nacáu'r praesept arfaethedig, gan roi rhesymau. Bydd angen i'r Panel gael ymateb i'r adroddiad ac unrhyw argymhellion o'r fath.

27.4 Os bydd y Panel yn nacáu'r praesept arfaethedig, bydd yn rhaid cynnal cyfarfod pellach o'r Panel o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad er mwyn ystyried ymateb y Comisiynydd.

**28. Cwynion**

28.1 Dylid ymdrin â chwynion o natur droseddol a chwynion nad ydyn nhw o natur droseddol sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu ddeiliaid swydd eraill yn unol â'r Ddeddf a Rheoliadau Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Cwynion a Chamymddwyn) 2012.

28.2 Caiff cwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu cyflwyno i'r Awdurdod Derbyn a fydd yn eu dwyn i sylw Cadeirydd y Panel.

28.3 Caiff cwynion o natur droseddol eu cyflwyno i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu er mwyn iddi eu hystyried.

*28.4* Bydd Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Aelod(au) Annibynnol o Banel Heddlu a Throseddu Gwent yn delio â chwynion nad ydyn nhw o natur droseddol, a hynny gyda chymorth Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod Derbyn.

28.5 Gall y Panel ystyried cwynion nad ydyn nhw o natur droseddol sy'n ymwneud â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu drwy wrandawiad os bydd angen. Gall y Panel archwilio hyn drwy is-bwyllgor gan ddilyn y weithdrefn a nodir yn adran 21.

28.6 Gall y Panel drosglwyddo cwynion i Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu os tybir y bydd yn briodol penderfynu arnyn nhw’n lleol.

28.7 Ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, bydd y Prif Weithredwr yn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau a gynhaliwyd i Gadeirydd y Panel mewn modd amserol.

28.8 Caiff gwybodaeth am gwynion a ddaw i law ynglŷn â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei chyhoeddi ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac ar wefan Panel Heddlu a Throseddu Gwent.

**29. Atal dros dro y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

29.1 Gall Panel atal y Comisiynydd Heddlu a Throseddu os bydd yn ymddangos i'r Panel:

a) Bod y Comisiynydd wedi cael ei gyhuddo yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o gyflawni trosedd
b) Bod y drosedd yn un a all arwain at uchafswm dedfryd o fwy na dwy flynedd o garchar.

29.2 Ni fydd y Comisiynydd wedi'i atal dros dro mwyach pan fydd y cynharaf o'r canlynol yn digwydd:

a) Y cyhuddiad yn cael ei ollwng
b) Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei ddyfarnu'n ddieuog o gyflawni'r drosedd
c) Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei ddyfarnu'n euog o gyflawni'r drosedd ond nid yn cael ei anghymhwyso o dan adran 66 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhinwedd yr euogfarn, neu
d) Yr ataliad yn cael ei derfynu gan y Panel Heddlu a Throseddu

29.3 Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at drosedd a all arwain at uchafswm dedfryd o fwy na dwy flynedd yn golygu:

a) Trosedd a all arwain at uchafswm dedfryd yn achos person sydd wedi cyrraedd 18 oed, neu
b) Trosedd a all arwain at ddedfryd o garchar am oes a bennir yn ôl y gyfraith yn achos person o'r fath

**30. Atal neu Ddiswyddo'r Prif Gwnstabl neu alw arno i Ymddeol**

30.1 Caiff y Panel ei hysbysu os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn atal y Prif Gwnstabl.

30.2 Bydd yn rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd hysbysu'r Panel yn ysgrifenedig os bydd yn cynnig y dylid galw ar y Prif Gwnstabl i ymddeol neu ymddiswyddo, gan roi copi o'r rhesymau a roddwyd i'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r cynnig hwnnw.

30.3 Bydd yn rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu roi copi i'r Panel o unrhyw sylwadau gan y Prif Gwnstabl ynglŷn â'r cynnig i alw arno i ymddiswyddo neu

ymddeol.

30.4 Os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dal i gynnig y dylid galw ar y Prif Gwnstabl i ymddiswyddo, bydd yn rhaid iddo hysbysu'r Panel yn unol â hynny (yr ‘hysbysiad pellach’).

30.5 O fewn chwe wythnos i'r dyddiad y daw'r hysbysiad pellach i law, bydd yn rhaid i'r Panel wneud argymhelliad ysgrifenedig i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch p'un a ddylai alw am yr ymddeoliad neu'r ymddiswyddiad ai peidio. Cyn gwneud unrhyw argymhelliad o'r fath, gall y Panel ymgynghori â Phrif Arolygydd ei Gwnstabliaeth, a bydd yn rhaid iddo gynnal gwrandawiad craffu.

30.6 Cyfarfod preifat o'r Panel fydd y gwrandawiad craffu y bydd yn rhaid i'r Panel ei gynnal, a bydd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl hawl i fod yn bresennol ynddo i wneud sylwadau mewn perthynas â'r cynnig y dylid galw ar y Prif Gwnstabl i ymddeol neu ymddiswyddo. Gellir ymddangos yn y gwrandawiad craffu drwy fod yn bresennol wyneb yn wyneb neu drwy gymryd rhan drwy gysylltiad ffôn neu fideo.

30.7 Bydd yn rhaid i'r Panel gyhoeddi'r argymhelliad a wneir ganddo ar ei wefan ac ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

30.8 Ni chaiff y Comisiynydd Heddlu a Throseddu alw ar y Prif Gwnstabl i ymddeol nac ymddiswyddo tan ddiwedd y broses graffu a fydd yn digwydd:

a) Ar ddiwedd cyfnod o chwe wythnos ar ôl i'r Panel gael ei hysbysu os nad fydd wedi rhoi argymhelliad i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu erbyn hynny ynghylch p'un a ddylai alw am yr ymddeoliad neu ymddiswyddiad ai peidio, neu
b) Os bydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn hysbysu'r Panel am benderfyniad ynghylch p'un a yw'n derbyn argymhellion y Panel mewn perthynas ag ymddiswyddo neu ymddeol ai peidio.

30.9 Bydd yn rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ystyried argymhelliad y Panel a bydd modd iddo ei dderbyn neu ei wrthod, gan hysbysu'r Panel yn unol â hynny.

30.10 Wrth gyfrifo'r cyfnod chwe wythnos, caiff y cyfnod ar ôl etholiad ei anwybyddu.

## 31. Cyfranogiad y Cyhoedd

31.1 Gyda chaniatâd y Cadeirydd ymlaen llaw, gall aelodau o'r cyhoedd wneud datganiad mewn perthynas â mater sy'n cael ei ystyried gan y Panel, ac eithrio materion yn ymwneud â phersonél.

31.2 Caniateir i aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr y cyfryngau sydd wedi'u hachredu'n briodol fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel.

31.3 Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion mewn unrhyw gyfarfod, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r unigolyn hwnnw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo adael y cyfarfod a/neu'n atal y trafodion.

## 32. Hyrwyddo'r Panel

32.1 Caiff y Panel ei hyrwyddo drwy'r canlynol:

a) Gwefan arbennig (gyda dolenni priodol i wefannau perthnasol eraill) gan gynnwys gwybodaeth rôl a gwaith y Panel, Aelodaeth y Panel, holl bapurau'r Panel ac is-bwyllgorau'r Panel nad ydyn nhw'n gyfrinachol, datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau eraill;

32.2 Caiff cymorth ac arweiniad, gan gynnwys hyfforddiant a chyngor arbenigol yn ôl yr angen, eu trefnu ar gyfer Aelodau'r Panel er mwyn eu helpu i gyflawni swyddogaethau'r Panel. Yr Awdurdod Derbyn fydd yn trefnu hyn.

**33. Dilysrwydd Trafodion**

33.1 Ni fydd swydd wag yn Aelodaeth y Panel na phenodiad diffygiol yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion y Panel.

33.2 Bydd y ffordd y caiff trafodion y Panel eu cynnal a chynnwys y trefniadau hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau deddfwriaethol yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, diwygiadau dilynol ac unrhyw Reoliadau a wneir yn unol â'r Ddeddf honno ac, os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Ddeddf neu Reoliadau a'r trefniadau hyn, gofynion y ddeddfwriaeth fydd drechaf.

**34. Rheolau trafod**

34.1 Ni chaniateir areithiau ar ôl i'r cynigydd gyflwyno cynnig ac esbonio ei ddiben nes i'r cynnig gael ei eilio.

34.2 Oni fydd hysbysiad o'r cynnig eisoes wedi cael ei roi, gall y Cadeirydd ei gwneud yn ofynnol ei ysgrifennu a'i gyflwyno iddo cyn iddo gael ei drafod.

34.3 Wrth eilio cynnig neu ddiwygiad, gall Aelod ddal ei araith yn ôl tan yn nes ymlaen yn y drafodaeth.

34.4 Rhaid i areithiau gyfeirio at y cwestiwn dan sylw neu at esboniad personol neu fater o drefn. Ni chaniateir i araith bara mwy na phum munud heb ganiatâd y Cadeirydd.

34.5 Ni fydd Aelod sydd wedi siarad ynghylch cynnig yn cael siarad eto tra bydd yn dal i gael ei drafod, ac eithrio:

- er mwyn siarad unwaith ynghylch diwygiad a gyflwynwyd gan Aelod arall;
- er mwyn cyflwyno diwygiad pellach os bydd y cynnig wedi cael ei ddiwygio ers iddo siarad ddiwethaf;
- os oedd ei araith gyntaf yn ymwneud â diwygiad a gyflwynwyd gan Aelod arall, er mwyn siarad ynghylch y prif fater dan sylw (p'un a gafodd y diwygiad y siaradodd yn ei gylch ei dderbyn ai peidio);
- er mwyn arfer yr hawl i ateb;
- ynghylch mater o drefn; neu
- er mwyn rhoi esboniad personol.

34.6 Diwygiadau i gynigion:

- Rhaid i ddiwygiad i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig, a'i effaith fydd

cyfeirio'r mater at gorff neu unigolion priodol er mwyn ei ystyried neu ai ailystyried, hepgor geiriau, hepgor geiriau a mewnosod neu ychwanegu geiriau eraill, neu fewnosod neu ychwanegu geiriau ar yr amod nad yw hynny'n dirymu'r cynnig.

- Dim ond un diwygiad y gellir ei gyflwyno a'i drafod ar unrhyw adeg benodol. Ni chaniateir cyflwyno diwygiad pellach nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y diwygiad sy'n cael ei drafod.
- Os na chaiff diwygiad ei dderbyn, gellir cyflwyno diwygiadau eraill i'r cynnig gwreiddiol.
- Os caiff diwygiad ei dderbyn, bydd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Hwn fydd y prif gynnig y caiff unrhyw ddiwygiadau pellach eu cyflwyno iddo.
- Ar ôl i ddiwygiad gael ei dderbyn, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig diwygiedig cyn derbyn unrhyw ddiwygiadau pellach neu, os na fydd rhai, symud i'r bleidlais.
- Gall Aelod roi hysbysiad o ddiwygiad pellach unrhyw bryd cyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch y diwygiad sy'n cael ei drafod a chaiff diwygiadau pellach o'r fath eu hystyried yn y drefn y rhoddir hysbysiad ohonyn nhw.

34.7 Newid cynnig:

- Gall Aelod newid cynnig y mae wedi rhoi hysbysiad ohono gyda chaniatâd y cyfarfod. Caiff caniatâd y cyfarfod ei ddatgan heb drafodaeth.
- Gall Aelod newid cynnig y mae wedi'i gyflwyno heb hysbysiad gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Caiff caniatâd y cyfarfod ei ddatgan heb drafodaeth.
- Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel diwygiad y gellir eu gwneud.

34.8 Tynnu cynnig yn ôl

- Gall Aelod dynnu cynnig y mae wedi'i gyflwyno yn ôl gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Caiff caniatâd y cyfarfod ei ddatgan heb drafodaeth. Ni chaiff yr un Aelod siarad ynghylch y cynnig ar ôl i'r cynigydd ofyn am ganiatâd i'w dynnu yn ôl, oni wrthodir caniatâd.

34.9 Hawl i ateb

- Bydd gan gynigydd hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y cynnig, yn syth cyn i'r bleidlais gael ei chynnal.
- Os caiff diwygiad ei gyflwyno, bydd gan gynigydd y cynnig gwreiddiol hawl i ateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y diwygiad, ond ni chaiff siarad ar y mater fel arall.
- Ni fydd gan gynigydd y diwygiad hawl i ateb yn y drafodaeth ynghylch ei ddiwygiad.

34.10 Cynigion y gellir eu cyflwyno yn ystod trafodaeth:

- Pan fydd cynnig yn cael ei drafod, ni ellir cyflwyno unrhyw gynnig arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

  - i dynnu cynnig yn ôl;
  - i ddiwygio cynnig;
  - i symud ymlaen i'r mater nesaf;
  - i gynnal pleidlais ar y cynnig;

- i ohirio'r drafodaeth;
- i ohirio'r cyfarfod;
- i gadw'r cyhoedd a'r wasg allan yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth;
- i beidio â chlywed mwy gan Aelod penodol, os bydd yn anwybyddu dyfarniad y Cadeirydd yn barhaus drwy ymddwyn yn amhriodol neu'n sarhaus neu'n llesteirio mater yn fwriadol, neu i'w gadw allan o'r cyfarfod os bydd yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn.

34.11 Cynigion cau:

- Gall Aelod gyflwyno'r cynigion canlynol heb wneud sylwadau ar ddiwedd araith gan Aelod arall:
    - i symud ymlaen i'r mater nesaf;
    - i gynnal pleidlais ar y cynnig;
    - i ohirio'r drafodaeth; neu
    - i ohirio'r cyfarfod.
- Os caiff cynnig i symud ymlaen i'r mater nesaf ei eilio a bod y Cadeirydd yn credu bod yr eitem wedi cael ei thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi hawl i ateb i'r cynigydd gwreiddiol ac yna'n cynnal pleidlais ar y cynnig gweithdrefnol.
- Os caiff cynnig i gynnal pleidlais ar y cynnig ei eilio a bod y Cadeirydd yn credu bod yr eitem wedi cael ei thrafod yn ddigonol, bydd cynnal pleidlais ar y cynnig gweithdrefnol. Os caiff ei dderbyn, bydd y Cadeirydd yn rhoi hawl i ateb i'r cynigydd gwreiddiol cyn cynnig pleidlais ar ei gynnig.
- Os caiff cynnig i ohirio'r drafodaeth neu ohirio'r cyfarfod ei eilio a bod y Cadeirydd yn credu nad yw'r eitem wedi cael ei thrafod yn ddigonol ac na ellir ei thrafod yn ddigonol ar yr achlysur hwnnw, bydd yn cynnal pleidlais ar y cynnig gweithdrefnol heb roi hawl i ateb i'r cynigydd gwreiddiol.

34.12 Mater o drefn

- Gall Aelod godi mater o drefn unrhyw bryd. Bydd y Cadeirydd yn clywed yr Aelod ar unwaith. Dim ond mater o drefn sy'n ymwneud ag achos honedig o dorri'r Rheolau Gweithdrefnol neu'r gyfraith y gellir ei godi. Rhaid i'r Aelod nodi pa reol neu gyfraith sydd dan sylw a sut mae'n credu iddi gael ei thorri. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynghylch y mater yn derfynol.

34.13 Esboniad personol

- Gall Aelod roi esboniad personol unrhyw bryd. Dim ond esboniad personol sy'n ymwneud â rhan berthnasol o araith gynharach gan yr Aelod y gall ymddangos iddi fod wedi cael ei chamddeall yn y drafodaeth bresennol y gellir ei roi. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynghylch derbynioldeb esboniad personol yn derfynol.

34.14 Y Gymraeg:

- Yn ystod holl drafodion y Panel, bydd gan y Gymraeg a'r Saesneg yr un statws a dilysrwydd.
- Bydd gan bob person hawl i annerch y Panel yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd gofyn i'r rhai sy'n dymuno cymryd rhan yn Gymraeg roi tri diwrnod o rybudd.

**Atodiad A**

**Meini Prawf Cymhwysedd Aelodau Cyfetholedig o'r Panel Heddlu a Throseddu**

**Ni chaiff ymgeiswyr ar gyfer rolau Aelodau Cyfetholedig fod yn:**

- Unrhyw un o dan 18 oed.
- Aelod o staff Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent.
- Swyddog Heddlu mewn swydd.
- Aelod o staff sifilaidd Heddlu Gwent.
- Aelod Seneddol.
- Aelod o Senedd Cymru neu Senedd yr Alban.
- Aelod o awdurdod lleol yn ardal Heddlu Gwent.
- Gweision sifil sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol.

**Cymwyseddau**:

- Meddwl yn strategol:
  Y gallu i ganolbwyntio ar y darlun ehangach, gan edrych y tu hwnt i'r manylion a gweld materion o safbwynt ehangach a mwy blaengar, yn ogystal â ffurfio cysylltiadau priodol rhwng meysydd gwaith â blaenoriaeth.
- Crebwyll da:
  Y gallu i ystyried materion mewn ffordd gytbwys, wrthrychol ac eangfrydig a chynnig her adeiladol i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, heb fod yn wrthdrawiadol nac yn rhy wleidyddol.
- Craffu a Herio:
  Parodrwydd i graffu'n drwyadl a herio'n adeiladol, gan ddefnyddio data, tystiolaeth ac adnoddau priodol.
- Gallu dadansoddol:
  Profiad o ddehongli deunydd ysgrifenedig cymhleth, gan gynnwys gwybodaeth ariannol a mesurau perfformiad allweddol, er mwyn penderfynu ar gwestiynau i'w gofyn i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a rhanddeiliaid perthnasol eraill.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol:
  Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Aelodau'r Panel, sefydliadau partner a rhanddeiliaid.

**Sgiliau a Rhinweddau Personol**:

- Gweithio mewn tîm:
  Y gallu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau effeithiol a phroffesiynol ag Aelodau eraill o'r Panel, y Cadeirydd a swyddogion cefnogi.

Disgwylir i holl Aelodau'r Panel gyflawni eu cyfrifoldebau yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus.